OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1227 (Cy.85)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*26 Ebrill 2005*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2005*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 134, 135, 145(1) a (2) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002 (**1**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 1 Medi 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

(3) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i berson a benodwyd, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, yn bennaeth ar y canlynol:

(a) ysgol yng Nghymru neu Loegr a gynhelir gan awdurdod addysg lleol neu ysgol arbennig yng Nghymru neu Loegr na chynhelir mohoni gan awdurdod addysg lleol;

(b) ysgol annibynnol yng Nghymru neu Loegr; neu

(c) sefydliad addysgol tebyg y tu allan i Gymru neu Loegr.

(4) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn:

ystyr "Rheoliadau 2005 ("*the 2005 Regulations*") yw Rheoliadau'r Cymunedau Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) (Y System Gyffredinol Gyntaf) 2005(**2**);

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru; ac

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) O.S. 2005/18. Mae hwn yn rhoi ei heffaith i Gyfarwyddeb y Cyngor 89/48/EEC ynghylch system gyffredinol ar gyfer cydnabod diplomâu addysg uwch a ddyfernir pan gwblheir addysg a hyfforddiant proffesiynol sy'n para am o leiaf dair blynedd.

ystyr "ysgol" ("*school*") (oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall) yw ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol neu ysgol arbennig na chynhelir mohoni gan awdurdod addysg lleol.

Cymhwyster Prifathrawiaeth

3.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 5, dim ond os yw'n meddu ar un o'r canlynol y caiff person wasanaethu fel pennaeth ysgol:—

(a) y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yng Nghymru;

(b) y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yn Lloegr(**3**);

(c) Safon Prifathrawiaeth yr Alban(**4**);

(ch) y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yng Ngogledd Iwerddon (**5**);

(d) cymhwyster sy'n debyg o ran ei effaith yn rhinwedd Rheoliadau 2005.

(2) Ystyr y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yng Nghymru yw'r cymhwyster a ddyfernir gan y Cynulliad Cenedlaethol i berson os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni bod y person wedi llwyddo i gwblhau unrhyw gwrs hyfforddiant y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei gymeradwyo o dro i dro at ddibenion dyfarnu'r cymhwyster hwnnw.

Gofyniad bod rhaid meddu ar gymhwyster

4. Dim ond os yw:

(a) yn athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig; neu

(b) yn meddu ar gymhwyster sy'n debyg o ran effaith yn rhinwedd Rheoliadau 2005

Gofyniad bod rhaid cofrestru

5. Dim ond os yw wedi cofrestru o dan adran 3 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (cofrestr a gedwir gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru) (**6**) y caiff person wasanaethu fel pennaeth ysgol.

Penaethiaid dros dro

6. Nid yw person sy'n cyflawni swyddogaethau pennaeth ysgol —

(a) hyd nes y penodir pennaeth, neu

(b) yn ystod absenoldeb pennaeth,

yn gwasanaethu fel pennaeth yr ysgol at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(**3**) Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Prifathrawon) (Lloegr) 2003, (O.S. 2003/3111), yw'r Rheoliadau cyfredol sy'n darparu ar gyfer hyn. Mae'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yn Lloegr yn cael ei ddyfarnu gan y National College for School Leadership Limited.

(**4**) Ar hyn o bryd, mae Safon Prifathrawiaeth yr Alban yn cael ei hennill drwy ymgymryd â Chymhwyster yr Alban ar gyfer Prifathrawiaeth.

(**5**) Mae'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yng Ngogledd Iwerddon yn cael ei ddyfarnu gan yr Uned Hyfforddi Rhanbarthol yng Ngogledd Iwerddon.

(**6**) 1998 p.30.